**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Rhodri Williams
Cyfarwyddwr Cymru
Ofcom
2 Caspian Point
Caspian Way
Caerdydd
CF10 4DQ

16 Chwefror 2017

Annwyl Rhodri,

**Y Darlun Mawr – Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru**

Byddwch yn ymwybodol bod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar sy'n nodi ein safbwyntiau cychwynnol ynglŷn â darlledu a'r cyfryngau yng Nghymru.

Roedd yr adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion, ac rydym wedi cynnwys isod y rhai sy'n berthnasol i Ofcom.

> '**Argymhelliad 8**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU ac Ofcom yn ystyried diwygio Cod Ymarfer Ofcom ar gyfer darparwyr Canllaw Rhaglenni Electronig i sicrhau bod S4C yn amlwg yng Nghymru yn y Canllawiau Rhaglenni Electronig a chymwysiadau teledu deallus, fel gwasanaeth i-player y BBC.'

> '**Argymhelliad 11**. Rydym yn galw ar Ofcom i asesu pa bwerau sydd ganddo i gynyddu cwotâu Channel 4 y tu allan i Loegr cyn adnewyddu'r drwydded nesaf yn 2024 a thrwy wneud hynny, ailystyried yr opsiynau mwy heriol a awgrymwyd ar gyfer cynyddu'r cwota yn 2013-14.'

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r argymhellion hyn erbyn diwedd y dydd ar 13 Mawrth 2017, mewn pryd ar gyfer dadl y Cynulliad, ar yr adroddiad ac ar ymateb Llywodraeth Cymru iddo.

Yn gywir

Bethan Jenkins

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565

**Bethan Jenkins AC**

**Cadeirydd**